# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Darpariaeth Cynhwysiad Gwynedd |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Edwards Ellis<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10.4.25 |

## 1. Y Penderfyniad a Geisir

Mae sicrhau'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth gorau ar gyfer plant sydd â phroblemau ymddygiadol yn un o flaenoriaethau Adran Addysg. Mae ymddygiad plant yn gynyddol heriol ac o ganlyniad mae'r nifer o ddysgwyr sydd angen cefnogaeth yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol yn cynyddu. Mae gwaharddiadau penodol a pharhaol ar gynnydd ac yn destun pryder gwirioneddol i'r Adran Addysg, Penaethiaid ac i gymunedau ysgolion Gwynedd (gweler Atodiad 4 ac 8). Mae'r angen i flaenoriaethu'r maes hwn hefyd wedi ei nodi fel argymhelliad gan Estyn (Atodiad 1) ac yna mewn Arfarniad Allanol o'r maes yn dilyn derbyn argymhellion Estyn (Atodiad 2).

Ceisir y penderfyniadau isod:

1. Mabwysiadu yr Opsiwn o greu Uned Gyfeirio Disgyblion Cofrestredig Portffolio ( Aml Safle)
2. Fod y Cabinet yn derbyn y cynllun ariannu yn yr adroddiad
3. Fod y Cabinet yn dirprwyo amserlen gweithredu a gwireddu y cynllun i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet Addysg

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

Mae'r newidiadau sydd yn cael eu ffafrio yn gofyn i ni ail-fodelu'r gwasanaeth er mwyn gwella beth sydd yn cael ei gynnig. Mae gan yr Adran fwriad i ariannu y gost a wynebir er mwyn gweithredu'r newidiadau yn 2025/26 o ffynonellau presennol gan yr Adran. Bydd yna broses o ail-strwythuro yn digwydd yn ystod 2025/26, ac os bydd yna fwlch yn yr ariannu yn dilyn y broses honno, bydd angen i'r Cabinet ragdybio bid am gyllid parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

**Beth sydd wedi arwain ni i'r pwynt yma?**

Dros y blynyddoedd yr ydym wedi lleihau'r gwasanaeth cynhwysiad. Nôl yn 2012 bu i ni fabwysiadu strategaeth gynhwysiad uchelgeisiol arweiniodd at gau dwy uned gyfeirio, un ym Mangor a'r llall yn Nolgellau a chau ysgol arbennig Coed Menai.

Ers hynny yr ydym wedi dyrannu swm o arian cynhwysiad (£1.2M) i ysgolion uwchradd ar ffurf grant cynhwysiad gyda'r bwriad o leihau gwaharddiadau a chynyddu presenoldeb.

Yr ydym wedi ceisio modelau gwahanol i ddarparu ar gyfer y plant na ellir ei cynhwyso mewn ysgolion, gyda chanlyniadau cymysg effaith hir dymor, ac ystod y ddarpariaeth ddim yn ddigonol i diwallu'r angen.  Yn fwy diweddar bu i ni geisio model hybiau lle bo dwy ysgol yn darparu yn hytrach nag uned ganolog, eto doedd hwn ddim yn fodel effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth i gyd wedi methu darparu'r profiadau gorau ar gyfer ein dysgwyr sydd wedi ei gwahardd ac fe amlygwyd hyn gan Estyn yr Awdurdod nôl yn haf 2023 ac mewn arfarniad gan arbenigwyr allanol gomisiynwyd gan yr Adran Addysg.

**Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?**

Cyflwynwyd adroddiad i sylw'r Tîm Arweinyddiaeth yn Ionawr 2025 ac ym Mis Mawrth 2025, a oedd yn amlygu'r opsiynau posib. Roedd yr adroddiad yn ymhelaethu mwy ar yr opsiwn ffafredig (Gweler Atodiad 5)

Bydd y cynllun newydd yn dod a chostau ychwanegol i'r Adran yn y tymor byr, ond mae bwriad i fod yn ailstrwythuro ac edrych ar unrhyw arbedion mewn meysydd eraill o fewn y Gwasanaeth ADY a CH, er mwyn ariannu'r buddsoddiad ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Fel sydd wedi ei nodi yn rhan 2 uchod, ac os bydd yna fwlch yn yr ariannu yn dilyn y broses honno, bydd angen i'r Cabinet ragdybio bid am gyllid parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen.

## 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Yn dilyn adroddiad Estyn (Atodiad 1) a Mrs C Rees (Atodiad 2), sefydlwyd Bwrdd Prosiect aml-asiantaethol a oedd yn cynnwys Penaethiaid ar gyfer cynllunio'r maes hwn. Bu i'r bwrdd ystyried adroddiadau Estyn ac Arfarniad allanol ynghyd ac effaith COVID ar ein plant a phobl ifanc. Mae'r angen yn y maes hwn wedi dwysáu (Atodiad 4), a gwaharddiadau wedi cynyddu.

Mae'n werth nodi bod cyfradd EOTAS Gwynedd yn isel o'i gymharu â siroedd eraill (EOTAS ydi nifer o blant sydd ddim yn derbyn addysg o fewn ysgol), ond mae'r darlun hwn yn gymhleth yn genedlaethol, oherwydd gwahaniaethau mewn darpariaethau.

Bu i aelodau o’r Bwrdd ymweld â siroedd eraill er mwyn gweld arferion amrywiol, a thrafod beth sy’n gweithio, a ddim yn gweithio, o fewn darpariaethau cynhwysiad amrywiol. Bu hefyd cydweithio gyda gwasanaethau eraill i fapio’r cymorth aml-asiantaethol sydd ar gael i’r dysgwyr hyn a’u teuluoedd.

O ganlyniad i’r gwaith hwn rydym wedi cynllunio opsiynau ar gyfer newid yn y ddarpariaeth, ac fe gyflwynwyd y rhain yng nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ym mis Ionawr 2025 a Mawrth 2025. Bydd ymgynghori ynglŷn â Strategaeth ar gyfer Cynhwysiad a fydd yn rhoi ffocws newydd ar leihau Gwaharddiadau gyda Phenaethiaid a rhanddeiliaid eraill yn rhan allweddol o’r gwaith.

Mae Atodiad 5 yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â’r model presennol, a’r modelau y bu i ni ystyried.


**Ddeddf Cydraddoldeb 2010**
Mae’r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a’r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cynghorau dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o’r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad 1. Mae gofyn i’r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw yr asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol yn deillio o’r penderfyniad.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach,
mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu a sy’n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae’r Strategaeth wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a’r 5 ffordd o weithio.

## Beth yw'r opsiwn ffafredig?

Uned Gyfeirio Disgyblion Cofrestredig Portffolio (aml safle) yw’r opsiwn ffafredig. Mae hyn yn golygu y bydd y ddarpariaeth gyffelyb i ysgol fechan ar fwy nag un safle a hynny ar gyfer plant phroblemau ymddygiad. Yr ydym o’r farn fod hwn yn fodel fydd yn cryfhau atebolrwydd, gwydnwch llywodraethiant ac yn cynyddu capasiti.
Bydd yr opsiwn yn cynyddu nifer y swyddi yn y strwythur gan gynnwys penodi arweinydd a mwy o athrawon. Yn ogystal a chreu darpariaeth arbenigol, bydd yn cynyddu’r mewnbwn mae’r ysgolion yn ei gael ar gyfer modelu a hyfforddi.


Bydd ardrawiad ar rhai swyddi o fewn y model presennol, ble bydd angen ymgynghori gyda staff presennol ac addasu swydd ddisgrifiadau. Bydd y Strwythur Staffio'r Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio fel a ganlyn:




Gyda'r staff wedi ei rhannu i'r ardaloedd fel a ganlyn (ond gyda hyblygrwydd i symud o un darpariaeth i'r llall):

Rationale dros y strwythur hwn yw:

- angen i gryfhau'r model ymestyn allan
- sicrhau staffio digonol ar gyfer tair canolfan yn rhedeg ar yr un amser.




Bydd y pennaeth, yr athrawon a chymorthyddion i gyd yn medru cefnogi plant o fewn y ddarpariaeth neu oddi mewn i ysgolion prif lif. Fe fyddan nhw'n weithredol, h.y. gweithio efo plant a phobl ifanc nid cynghori eraill beth y dylid ei wneud. Dyma mae'r ysgolion wedi gofyn amdano.
Bydd angen cryfhau elfennau cydweithio aml asiantaethol y er mwyn cynnal y dysgwyr o ran eu hanghenion cyfan personol a theuluol. Mae'n gwbl allweddol ein bod ni'n gweithio fel rhan o dîm gan nad oes disgwyl i'r gwasanaeth yma ar ei ben ei hun fod ar atebion i gyd.

**Lle fydd y ddarpariaeth?**

Yr ydym wedi buddsoddi arian cyfalaf grant ADY i uwchraddio adeilad hen ysgol Felinwnda, fe fydd y gwaith wedi gorffen erbyn Medi 2025. Fe fydd hwn yn gartref i'r gwasanaeth ac yn ychwanegu at y ddarpariaeth ym Mhenygroes ar gyfer Arfon/Dwyfor.

Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod lleoliad addas i gynnal lloeren ar gyfer Meirionnydd, lleoliad a fydd yn gweithio i'r mwyafrif. Lle fo costau cludiant yn sylweddol byddwn yn edrych ar leoliadau dros dro fydd yn cyfarch yr anghenion ac yn gwneud gwell defnydd o gyllid. Fel mae Atodiad 8 yn dangos, mae'r angen am y math hwn o ddarpariaeth yn llai o fewn Meirionnydd o'i gymharu ag Arfon/Dwyfor, felly bydd y ddarpariaeth lloeren yn llai.

**Beth fydd yn wahanol i'r dysgwyr fyddai'n cael eu cynnal o fewn y ddarpariaeth?**

Bydd y dysgwyr sydd yn mynychu'r lleoliadau angen darpariaeth sydd yn wahanol i ddosbarth priflif mewn ysgol. Bydd arlwy mwy ymarferol, therapiwtig, fydd yn edrych ar amrywiaeth o gymwysterau amgen ymarferol, ar gyfer gwella eu llwybr i fyd-gwaith, perthnasau iach, ac i gymryd rhan yn ein cymunedau.

**Beth mae hyn yn ei olygu i'r grant cynhwysiad uwchradd?**
Fel rhan allweddol o'r cynllun, bydd angen ffurfioli'r monitro ynglŷn â defnydd Ysgolion Uwchradd o'r buddsoddiad o £1.2 miliwn, sydd wedi ei bennu ar gyfer creu darpariaeth cynhwysiad o fewn yr Ysgolion. Nid oes monitro ffurfiol o'r swm hyn ar hyn o bryd ac mae'n rhaid i hyn newid.

**Cyfrifoldeb pwy fydd ansawdd profiadau'r plant o fewn y ddarpariaeth yma?**

Rôl y Pennaeth Portffolio fydd i reoli'r ddarpariaeth, ansawdd y ddarpariaeth, a pharatoi at sgrwtini e.e. Herio Perfformiad, Arolygon Estyn. Byddai angen 'Pwyllgor Rheoli' ar gyfer y ddarpariaeth yn debyg i gorff llywodraethu ysgol.

Nodweddion Positif:
- Cryfhau ardrawiad mewnbwn ymestyn allan – modelu, hyfforddi, ymgynghori
- Darparu mewn lleoliadau addas penodol gydag amgylchedd ddysgu o ansawdd uchel, gan weithlu cymwys a medrus
- Strwythur staffio a Llywodraethiant cadarn (e.e. Pwyllgor Rheoli, Arolwg Estyn)
- Darpariaeth ganolog arbenigol ar gyfer dysgwyr gydag anghenion lefel uchel
- Gallu darparu ar gyfer sefyllfaoedd eraill hefyd, e.e. amgylchiadau lle mae dysgwr rhwng ysgolion yn dilyn gwaharddiad i gynorthwyo'r trosglwyddiad
- Darpariaeth arbenigol ar gyfer Bl 10 ac 11, sef y blynyddoedd mwyaf heriol.

Nodweddion Negatif
- Posibilrwydd i gostau Cludiant gynyddu.
- Strategaeth Cynhwysiad Ysgolion llwyddiannus yn hanfodol i allu darparu – e.e. monitro defnydd cyllid cynhwysiad yr ysgolion yn rhan hanfodol
- Angen am gyllideb ychwanegol yn y cyfnod sefydlu (gweler isod) ac o bosib yn y tymor hir.

**Beth fydd cost y model ffafredig?**

Bydd cost o £189,554,refeniw yn *ychwanegol* i'r gwariant presennol.

Yn ogystal, mae £157,000 o arian grant ADY yn cael ei ddefnyddio o fewn y model presennol. Mae risg ogwmpas y cyllid hwn pe byddai'r grant yn dod i ben.

Byddwn yn  edrych ar arbedion mewn meysydd eraill o fewn ADY a Ch yn ei gyfanrwydd yn y dyfodol ar gyfer ariannu unrhyw fwlch. Fe fydd angen amser i ni wireddu'r arbedion yma, yr ydym yn gofyn i hyn gael ei ystyried. Os bydd yna fwlch yn yr ariannu yn dilyn y broses o ailstrwythuro a cheisio am arbedion, mae risg y bydd angen i'r Cabinet ragdybio bid am gyllid parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen.

**Ydi hyn yn darparu y capasiti sydd wirioneddol ei angen?**

Bu trafodaeth ynglŷn â capasiti'r ddarpariaeth yn y Tîm Arweinyddiaeth. Mae'r lefelau angen yr ydym yn ei brofi yn y maes hwn  yn cynyddu, felly mae angen bod yn cynllunio ymlaen at y dyfodol yn ogystal.

Byddwn yn gweithio ar Strategaeth Cynhwysiad gyda'r Penaethiaid i gyd-fynd a'r gwaith, er mwyn gwella ymateb graddoledig ehangach er mwyn lleihau'r angen am leoliad yn yr Uned Gyfeirio Disgyblion.

Yr ydym yn credu fod y model yn darparu digon o leoliadau tu allan i ysgol.  Dylai'r mwyafrif o ddysgwyr fod yn cael eu cynnwys o few neu hysgolion priflif, gyda lleiafrif angen y ddarpariaeth arbenigol y tu allan i'r priflif.

## 3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Mae'r wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno o fewn yr adroddiad hwn yn disgrifio'r sefyllfa bresennol. Mae angen gweithio mewn ffordd wahanol, ac mae'r Bwrdd Prosiect yn cyflwyno'r model hwn yn dilyn cyfnod o ymchwilio a modelu ar gyfer gwella'r cynnig ar gyfer dysgwyr Gwynedd sydd ag anawsterau sylweddol gyda sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

## 4. Camau Nesaf ac Amserlen

| | |
|---|---|
| **Ymgynghori gyda staff presennol a'r Undebau** | **Ebrill – Mai 2025** |
| **Hysbysebu swydd Pennaeth Portffolio UCD** | **Ebrill – Mai 2025** |
| **Adnabod lleoliad lloeren Meirion/Dwyfor** | **Mawrth – Gorffennaf 2025** |
| **Ymgynghori gyda rhanddeiliaid** | **Gorffennaf 2025** |
| **Cofrestru'r Ddarpariaeth UCD Portffolio gyda Llywodraeth Cymru a sefydlu Pwyllgor Rheoli** | **Gorffennaf – Medi 2025** |
| **Darpariaeth mewn lle** | **Medi 2025** |

## 5. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 5.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae swyddogion Cyllid wedi cyd-weithio gyda'r gwasanaeth gyda'r ffigyrau ariannol a gyflwynir yn yr adroddiad, a gallaf gadarnhau eu cywirdeb. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r adran dros y flwyddyn nesaf i adnabod cyfleon i ariannu'r cynnydd yn y costau fel bod modd osgoi neu leihau unrhyw ymrwymiad bid parhaol ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen.

### 5.2 Swyddog Monitro

Mae pwysigrwydd y maes yma yn amlygu ei hyn yn yr adroddiad. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

**Rhestr Atodiadau:**

- Atodiad 1: Adroddiad Estyn Cyngor Gwynedd
- Atodiad 2: Arfarniad Allanol (Awdur: Mrs Caroline Rees)
- Atodiad 3: Dogfen Egwyddorion ADYaCH
- Atodiad 4: Data angen Gwynedd Cymhariaeth 2019 a 2024
- Atodiad 5: Model Staffio Presennol a'r Opsiynau
- Atodiad 6: Data EOTAS (Addysg heblaw am yn yr Ysgol) Gwynedd
- Atodiad 7: Asesiad Effaith
- Atodiad 8: Data gwaharddiadau yn ol Ardal